



cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

DATGANIAD I'R WASG
Dyddiad: 1 Hydref 2010



Y gynhadledd gyntaf erioed i denantiaid Tai Ceredigion

Ddydd Mercher, 13 Hydref yn y Pafiliwn ym Mhontrhydfendigaid, bydd Tai Ceredigion, y gymdeithas dai ddi-elw leol, yn cynnal ei chynhadledd gyntaf erioed i denantiaid ers i'r gymdeithas gymryd cyfrifoldeb am bron i 2,500 o gartrefi yn y sir ddeng mis yn ôl.

Bydd y gynhadledd yn gyfle i bob un o denantiaid Tai Ceredigion glywed gan aelodau allweddol y tîm gweithredol a'r bwrdd, a Grŵp Monitro'r Tenantiaid, a chymryd rhan mewn gweithdai i weld beth yw'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau a gwelliannau.

Bydd hefyd yn gyfle i glywed canlyniadau yr arolwg STATUS diweddar, yr ymatebodd 59% o denantiaid a lesddeiliaid iddo er mwyn rhoi gwybod am eu hanghenion cyffredinol, eu barn, a'u hagweddau ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y gymdeithas dai. Roedd Tai Ceredigion wedi comisiynu Gwasanaeth Adborth y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol i gynnal arolwg annibynnol cyntaf y gymdeithas gan ddefnyddio ffurflen holiadur STATUS Cymru (holiadur safonol bodlonrwydd tenantiaid) yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf eleni.

Meddai Cyfarwyddwr Tai a Chymorth Tai Ceredigion, Eleri Jenkins: “Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar iawn at ein cynhadledd gyntaf erioed i denantiaid, ac rydym yn gobeithio y bydd llawer o denantiaid am ddod i glywed am ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, ein cynlluniau a'n gwelliannau ar gyfer y dyfodol, a chanlyniadau'r arolwg. Roeddem wrth ein bodd o glywed bod nifer eithriadol o fawr o denantiaid a lesddeiliaid wedi llenwi'r holiadur, ac rydym yn edrych ymlaen at rannu'r adborth a roddwyd. Rydym yn gweithio'n galed i gyflawni'r addewidion a wnaed ar ddechrau'r broses drosglwyddo fis Rhagfyr diwethaf, ac mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda'n tenantiaid i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl ar eu cyfer nhw a'u cartrefi.”

Os oes unrhyw rai o denantiaid Tai Ceredigion heb ymateb i'r gwahoddiad a gawsant i archebu lle yn y gynhadledd, ac os hoffent ddod iddi, mae croeso iddyn nhw gysylltu drwy ffonio 0345 606 7654, e-bostio post@taiceredigion.org.uk neu anfon gair i'r cyfeiriad canlynol: Tai Ceredigion Cyf, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH.